



Ysgol Gymraeg Pen y Garth



Heol Redlands Road

Penarth

CF64 2QN

02920 700 262

ygpenygarth@valeofglamorgan.gov.uk



Croeso

Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

Os yw eich plentyn yn ymuno â ni am y tro cyntaf, gaf i estyn croeso cynnes i chi i Ysgol Gymraeg Pen y Garth. Edrychaf ymlaen i gyd-weithio gyda chi yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Braint oedd cael dechrau fel pennaeth Ysgol Pen y Garth yn Ionawr 2023. Fe wnes i addo y byddwn yn gweithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau'r gorau posib i'r disgyblion a staff..

Ein nod yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth yw bod pawb yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn bwysig yn yr ysgol. Mae sicrhau ein bod yn dathlu ein gilydd yn bwysig i ni, rydym yn dilyn y dywediad "Derbyn beth sy'n debyg...Dathlu beth sy'n wahanol". Rydym yn rhoi ffocws cryf ar berthnasoedd yn yr ysgol a chredwn yn gryf bod perthynas yn sail i bopeth rydym yn gwneud.

Mae ein disgwyliadau ni yn uchel o bob plentyn a rydym yn anelu at y safonau uchaf ym mhopeth rydym yn gwneud.

Mae'r arweinwyr Cwricwlwm yn gweithio'n galed i gynllunio profiadau, gwybodaeth a sgiliau gwerthfawr a diddorol i'n disgyblion. Mae gweithgareddau all-gyrsiol hefyd yn bwysig iawn i ni. Mae ein staff a disgyblion wedi profi cryn dipyn o lwyddiant ar y caeau Chwaraeon ac ar lwyfan yr Eisteddfod gyda Dawns, Canu a Chelf.

Ein bwriad fel ysgol yw meithrin a datblygu pob disgybl fel unigolion hyderus sy'n falch o'u hysgol, eu hiaith a'u diwylliant. Annogwn ein disgyblion i fod yn gwrtais, yn barchus ac yn ddiolchgar ar bob achlysur.

Mae lles disgyblion a staff yn bwysig iawn ym Mhen y Garth. Clustnodwn amser ar gyfer sicrhau bod lles staff a disgyblion yn flaenoriaeth. Mae gennym ddiwrnod lles bob hanner tymor ble mae'r disgyblion a staff yn dysgu ac yn datblygu sgiliau hanfodol a hefyd yn datblygu'r berthynas rhyngddynt hyd yn oed yn fwy.

Mae croeso cynnes i chi ffonio'r ysgol i drefnu ymweld â ni! Croeso cynnes i Ben y Garth!

Miss Becca Pugh

Pennaeth





Welcome

Dear Parents/Guardians,

If your child is joining us for the first time, may I extend a warm welcome to you to Ysgol Gymraeg Pen y Garth. I very much look forward to working with you in the years to come.

It was a privilege to start as headteacher of Ysgol Pen y Garth in January 2023. I promised that I would work diligently to ensure the best possible for the pupils and staff.

Our goal at Ysgol Gymraeg Pen y Garth is that everyone feels happy, safe and important at school. Making sure we celebrate each other is important to us, we follow the saying "Accept our similarities...Celebrate our differences". We place a strong focus on relationships in the school and we strongly believe that relationships underpin everything we do.

Our expectations of all of our pupils are high and we aim for the highest standards in everything we do.

The Curriculum leaders work hard to plan valuable and interesting experiences, knowledge and skills for our pupils. Extracurricular activities are also very important to us. Our staff and pupils have experienced a great deal of success on the Sports fields and on the Eisteddfod stage with Dance, Singing and Art.

Our intention as a school is to nurture and develop all pupils as confident individuals who are proud of their school, their language and their culture. We encourage our pupils to be polite, respectful and grateful on all occasions.

The welfare of pupils and staff is very important at Pen y Garth. We set aside time to ensure that the welfare of staff and pupils is a priority. We have a well-being day every half term where the pupils and staff learn and develop essential skills and also develop the relationship between them even more.

You are more than welcome to call the school to arrange a visit with us!
Welcome to Pen y Garth!

Miss Becca Pugh

Headteacher





Staff

Uwch Dîm Arwain	
Becca Pugh	Pennaeth / Headteacher
Sioned Jones	Dirprwy / Deputy
Tomi Turner	Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Headteacher
Cath Bliss	Pennaeth Cynorthwyol / Assistant Headteacher
Bethan Williams	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol / Additional Learning Needs Coordinator
Staff Dysgu	
Delyth Vaughan	
Steffan Davies	
Marc Hughes	
Laura Jones	
Mari Jacks	
Michaela Halls	
Emma Watt	
Jo Buckland	
Debbie Shuffley	
Nia Smith	
Cathryn Rowlands	
Cadi Dafydd	
Lucy Clarke	
Leri Richards	
Staff Cynorthwyol / Support Staff	
Bev Karatas	
Kath Lawday	
Sadie DeClaire	
Sian Hillman	
Kyle Roberts	
Sian Jeffery	
Ceri Morgan	
Haf Smart	
Amie Humphreys	
Angharad Stevenson	
Jordana Hodges	
Swyddfa / Office	
Kelly Blake	
Sally Craven	



Amseroedd y Dydd / School Times

Diwrnod ysgol yn dechrau: School day starts:	9yb / 9am
Egwyl bore Cyfnod Sylfaen: Foundation Phase morning break:	10.30yb – 10.45yb 10.30am – 10.45am
Egwyl bore Cyfnod Allweddol 2: Key Stage 2 morning break:	10.50yb – 11.05yb 10.50am – 11.05am
Cinio Cyfnod Sylfaen: Foundation Phase Lunch:	11.45yb – 12.45yp 11.45am – 12.45pm
Cinio Cyfnod Allweddol 2: Key Stage 2 Lunch:	12.15yp – 1.15yp 12.15pm – 1.15pm
Egwyl prynhawn Cyfnod Sylfaen: Foundation Phase afternoon break:	1.50yp – 2.00yp 1.50pm – 2.00pm
Egwyl prynhawn Cyfnod Allweddol 2: Key Stage 2 afternoon break:	2.00yp – 2.10yp 2.00pm – 2.10pm

Meithrin Bore: Morning Nursery:	9yb – 11.30yb 9am – 11.30am
Meithrin Prynhawn: Afternoon Nursery:	1yp – 3.30yp 1pm – 3.30pm





Gwaith Cartref Cyfnod Sylfaen/ Foundation Phase Homework

Mae disgyblion y Cyfnod Dysgu Sylfaen yn derbyn bwydlen o weithgareddau yn seiliedig ar themâu'r dosbarth a sgiliau mae'r disgyblion angen datblygu. Mi fydd y fwydlen yn cael ei gyflwyno trwy e-bost i ddisgyblion Y Feithrin ac ar Google Classrooms i ddisgyblion Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 ar ddechrau pob hanner tymor. Yn ystod yr wythnos cyn pob hanner tymor caiff ein disgyblion y cyfle i gyflwyno a dathlu eu gwaith.

Gofynnwn yn garedig i bob plentyn ymarfer darllen mor aml â phosib yn y tŷ.

Yn ystod hanner tymor cyntaf tymor yr Hydref caiff rhieni'r Dosbarth Derbyn gwahoddiad i gyflwyniad Tric a Chlic, y cynllun ffoneg yr ydym yn ei ddilyn. Ar ôl hanner tymor mi fydd y disgyblion yn dechrau cymryd bagiau coch darllen adref gyda gweithgareddau ffoneg a llyfrau darllen pwrpasol.

Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn darllen yn unigol yn wythnosol gyda'r athrawon ac yn newid eu llyfrau darllen yn wythnosol ar ddiwrnod penodol.

Pupils in the Foundation Learning Phase receive a menu of activities based on the themes of the class and skills the pupils need to develop. The menu will be presented by email to Nursery pupils and on Google Classrooms to Reception, Year 1 and 2 pupils at the beginning of each half term. During the week before each half term pupils have the opportunity to present and celebrate their work.

We kindly ask all children to practice reading as often as possible at home.

During the first half term of the Autumn term parents of the Reception Class are invited to a presentation of Tric a Chlic, the phonics scheme we use. After half term the pupils will start taking red reading bags home with phonics activities and reading books.

Year 1 and 2 pupils read individually weekly with the teachers and change their reading books weekly on a specific day.





Gwaith Cartref Cyfnod Allweddol 2

Key Stage 2 Homework

Gwaith Cartref Cyfnod Allweddol 2

Credwn yn gryf mewn datblygu medrau'r dysgwyr wrth osod gwaith cartref i blant Cyfnod Allweddol 2. Bydd cyfle gan ddysgwyr i gwblhau gwaith cartref sydd wedi ei selio ar ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o fewn y meysydd dysgu a phrofiad a hynny ar ffurf *Takeaway Gwaith Cartref*. Bydd y gwaith cartref yn cael ei osod ar ddydd lau yr ail wythnos o bob hanner tymor gyda'r dyddiad cyflwyno wedi ei osod ar y daflen ar gyfer wythnos olaf yr hanner tymor. Gosodir y gwaith cartref ar Google Classroom a gall dysgwyr ddewis i gyflwyno'r gwaith cartref ar bapur neu ar gyfrifiadur. Bydd gan ddysgwyr tua mis i gwblhau y tasgau. Bydd cyfle gan ddysgwyr i gyflwyno eu gwaith cartref i'r dosbarth yn ystod wythnos y dyddiad cyflwyno er mwyn dathlu eu gwaith.

Darllen

Bydd cofnod darllen a llyfr darllen Cymraeg neu Saesneg (eilio) yn cael eu hanfon adref gyda'r disgyblion ar brynhawniau lau. Bydd disgwyl i'r cofnodion a'r llyfrau gael eu dychwelyd i'r ysgol erbyn y dydd Mercher canlynol. Bydd yr athro dosbarth yn anelu at roi sylw yn y cofnod yn wythnosol.

Sillafu

Gan eilio gyda'r sillafu, bydd dewis o dabl i ymarfer. Byddant yn cael eu cyflwyno ar Google Classroom i'r dysgwyr ar ddyddiau lau. Y disgybl fydd yn dewis pa dabl yr hoffent adolygu. Byddwn yn ymarfer y tablau hyn ar daflen tablau *Times Tables Rockstars* yn y dosbarth dydd Gwener yr wythnos ar ôl gosod y tabl.

Tablau

Gan eilio gyda'r tablau, bydd rhestrau sillafu Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyflwyno ar Google Classroom i'r dysgwyr ar ddyddiau lau. Bydd dewis o ddwy her. Y disgyblion fydd yn dewis yr her fwyaf priodol iddynt hwy. Byddwn yn ymarfer y geiriau hyn yn y dosbarth dydd Gwener yr wythnos ganlynol.





Ein Cynghorau / Our Councils

Y Cyngor ysgol / School Council

Mae'r cyngor ysgol ym Mhen y Garth yn brysur iawn – yn cwrdd yn gyson er mwyn gwneud penderfyniadau, meddwl am syniadau ysgogol a trefnu digwyddiadau arbennig. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn dod o flynyddoedd 2 i 6. Mae nhw'n gyfrifol am osod yr agenda, cymryd cofnodion y cyfarfod a cwrdd gyda aelodau o'r uwch – dîm arwain i drafod eu syniadau. Mae nhw'n ganolog i bwysigrwydd 'llais y disgybl'. Yn ôl ein aelodau presennol; er mwyn bod yn aelod effeithiol o'r cyngor mae'n rhaid eich bod chi'n 'gwrando'n dda, yn cyfathrebu'n effeithiol ac mae'n rhaid bod yn drefnus'. Rhaid gwneud penderfyniadau synhwyrol a gwneud awgrymiadau diddorol wrth drafod pynciau llosg amrywiol. Dyma rhai o'r pethau mae nhw wedi gwneud:

- Cyfweld â'r pennaeth newydd
- Ail-ysgrifennu y polisi gwrth-fwlio mewn i laith y plentyn
- Llais y disgybl – dewis y gwerthoedd mwyaf pwysig i'n hysgol
- Llais y disgybl – cyfrannu at weledigaeth newydd yr ysgol
- Cymryd rhan flaenllaw drwy wneud penderfyniadau ar gyfer ein siart gweithredoedd newydd
- Llais y disgybl – cynnig eu syniadau am beth sy'n gwneud gwers effeithiol
- Cynnig barn am y fwydlen ginio
- Monitro / gwobrwyo bocsys bwyd iachus yn y neuadd ginio

Our school council are very active – meeting regularly to make decisions, come up with innovative ideas and organise various events. The council is made up of members from year 2 to year 6. They are involved in setting agendas and taking minutes of the meetings as well as meeting with senior leaders to discuss their ideas. They are central to the importance and power of 'pupil voice' in the school. According to our current school council members, in order to be an effective member you need to be a 'good listener, communicator and you need to be organised'. You must make sensible decisions and make interesting suggestions when discussing 'hot topics'.

These are some of the things that they have been involved in this year:

- Interviewing the new Headteacher
- Re writing the anti-bullying policy so that it is in 'child speak'
- Pupil voice - choosing the most important values for our school
- Lending their pupil voice to the new vision of our school
- They played a leading role in making decisions regarding our new 'behaviour charter'
- Lending their pupil voice to discuss what makes an effective lesson
- Lending their pupil voice to discuss the lunch menu
- Monitoring / rewarding healthy eating in the canteen with regards to lunch boxes





Ein Cynghorau / Our Councils

Criw y Siarter Iaith / Welsh Charter Crew

Mae 'Criw Siarter Iaith' Pen y Garth yn brysur ac yn angerddol am eu hiaith – yn cwrdd yn gyson er mwyn gwneud penderfyniadau, meddwl am syniadau ysgogol a trefnu digwyddiadau arbennig sy'n ymwneud â hybu Cymreictod yn yr ysgol yn ogystal â hyrwyddo gwaith y ' Siarter Iaith'. Daw aelodau'r cyngor o flynyddoedd 2 i 6. Mae nhw'n gyfrifol am osod yr agenda, cymryd cofnodion y cyfarfod a chwrdd gyda aelodau o'r uwch dîm arwain i drafod eu syniadau. Mae nhw'n chwarae rhan flaenllaw wrth i ni ystyried pwysigrwydd a phŵer 'llais y disgybl'. Yn ôl ein aelodau eleni, er mwyn bod yn aelod effeithiol o'r 'Criw Siarter Iaith' mae'n rhaid eich bod chi'n angerddol am yr iaith, yn cyfathrebu'n effeithiol, yn ofalgar ac mae'n rhaid bod yn drefnus.

Dyma esiamplau o swyddi Criw y Siarter Iaith:

- Monitro / gwobrwyo defnydd o'r 'potiau pasta' sydd ymhob dosbarth (system wobrwyo siarad Cymraeg)
- Dysgu Cymraeg / patrymau Cymraeg i staff y gegin
- Dysgu gemau buarth yn y Gymraeg i'r disgyblion
- Bod yn ysbiwyr ar yr iard er mwyn gwobrwyo'r plant sy'n siarad Cymraeg
- Trefnu diwrnodau arbennig sy'n hybu Cymreictod ee Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Seren a Sbarc, Dydd Gŵyl Dewi ac Eisteddfod yr Ysgol
- Penderfynu ar brif dargedau ysgol gyfan yn dilyn dadansoddiad holiaduron y siarter iaith

Our 'Welsh charter crew' are very active and very passionate about their language - meeting regularly to make decisions, thinking of innovative ideas and organising various events which are related to promoting Welshness in school as well as promoting the work of the 'Welsh charter'. The council includes members from year 2 to year 6. They are involved in setting agendas and taking minutes of the meetings as well as meeting with senior leaders to discuss their ideas. They are central to the importance and power of 'pupil voice' in the school. According to our current 'Welsh Charter Crew' members, in order to be effective you need to be passionate about the language, an effective communicator and you need to be caring and organised.

Here are some examples of what the pupils do:

- Monitoring / rewarding the use of the 'pasta pots' that are in every class (reward for speaking Welsh)
- Teach Welsh language patterns and phrases to the kitchen staff
- Teach Welsh language games to children on the yard
- Act as 'spies' on the yard in order to reward children who speak Welsh consistently
- Organise various days which promote the Welsh language e.g Welsh music day, Seren & Sbarc day, St David's day and the school Eisteddfod
- Decide on whole school targets following the analysis of the Welsh language charter questionnaire



Ein Cynghorau / Our Councils

Hawliau Plant / Children's Rights

Yn Ysgol Gymraeg Pen -y-Garth rydym yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau ein bod yn ysgol sydd yn 'Ysgol sy'n parchu hawliau plant'. Rydym wedi sefydlu 'Pwyllgor Hawliau Plant' sy'n cynnwys unigolion ar draws yr ysgol gyda'r nod o gynrychioli llais y disgyblion. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd i drafod sut gallwn godi ymwybyddiaeth o hawliau plant. Mae'r plant wedi, ac yn, cyfrannu syniadau aeddfed a synhwyrol. Rydym yn anelu am 'Wobr Efydd Ysgolion sy'n Parchu Hawliau Plant'. Mae'r plant yn barod wedi cael nifer o brofiadau am hawliau plant ar draws yr ysgol ac rydym yn awyddus i weithio gyda'r CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) i fod yn Ysgol sy'n Parchu Hawliau. Fel ysgol rydym yn credu'n gryf bod gan bob plentyn hawliau a rydym yn gwneud pob ymdrech i roi hyn ar waith!

At Ysgol Pen-y-Garth we are working hard to ensure that we are being a Rights Respecting School. We have established a 'Rights Respecting Committee' which represents a number of individuals across the school with the aim of representing pupil's voice. We meet regularly to discuss how we can raise awareness of children's rights and the children contribute mature and sensible ideas. We are aiming for the 'Bronze Rights Respecting School Award'. The children have already had various experiences learning about children's rights and we are looking forward to working with UNCRC (United Nations Convention on the Rights of the Child) and to become a Rights Respecting School. As a School we believe strongly that every child has rights, and we make every effort to put this into action!





Ein Cynghorau / Our Councils

Cyngor Eco / Eco Council

Y Pwyllgor 'Eco'

Mae sicrhau amgylchedd ddiogel ac iach i'r gymuned ysgol yn flaenoriaeth i'r Pwyllgor sy'n cynnwys disgyblion gofalgwr a gweithgar o Gyfnod Allweddol 2. Maent yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried, hyrwyddo a gweithredu syniadau sy'n elwa pawb ar ein safle a'r amgylchedd ehangach. Mae'r tîm nawr wedi ymrwymo i helpu Pen-y-Garth gyflawni statws 'di-blastig'.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau'r Pwyllgor:

Annog disgyblion, rhieni a staff i 'leihau, aildefnyddio ac ailgylchu'
Ystyried ffyrdd o leihau dibyniaeth ar adnoddau plastig diangen
Casglu sbwriel plastig yn rheolaidd o dir yr ysgol a Thraeth Penarth
Atgoffa disgyblion i arbed dŵr ac egni

Monitro parcio ym maes parcio'r rhieni ac ar Glós Norris
Creu posteri i atgoffa rhieni i barcio'n ddiogel ac ystyriol
Hyrwyddo 'Wythnos Gerdded/Beicio i'r Ysgol'

Addysgu plant iau sut i groesi'r ffordd yn ddiogel

Helpu'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon drwy awgrymu gweithgareddau awyr agored i blant a'u teuluoedd yn ystod y gwyliau

The 'Eco' Committee

Ensuring a safe and healthy environment for the school community is a priority for the Committee which comprises caring and industrious pupils from Key Stage 2. They meet regularly to consider, promote and realise ideas that benefit all on site and the wider environment. The team is now committed to helping Pen-y-Garth achieve 'plastic-free' status.

Here are examples of the Committee's activities:

Encouraging pupils, parents and staff to 'reduce, reuse and recycle'

Considering ways of reducing dependence on unnecessary plastic items

Collecting plastic rubbish regularly from school land and Penarth Beach

Reminding pupils to save water and energy

Monitoring parking in the parents' car park and on Norris Close

Creating posters to remind parents to park safely and considerately

Promoting 'Walk/Cycle to School Week'

Educating younger pupils in how to cross the road safely

Helping the Parent-Teacher Association by suggesting outdoor holiday activities for pupils and their families





Meddygyniaeth / Medication

Dim ond meddygyniaeth sydd wedi'i rhagnodi gan feddyg teulu y gall staff yr ysgol ei rhoi. Os yw plentyn yn dioddef o salwch hir dymor (y gellir ond ei reoli gyda meddygyniaeth reolaidd), rydym yn fodlon rhoi meddygyniaeth yn yr ysgol.

Er mwyn i ni roi'r feddygyniaeth rhaid i chi lenwi'r ffurflen gywir sydd ar gael yn swyddfa'r ysgol. Mae'r holl feddygyniaeth yn cael ei gadw'n ddiogel yn unol â chyfarwyddiadau, allan o olwg a chyrhaeddiad y plant. Mewn argyfwng difrifol bydd yr ysgol yn galw am gymorth proffesiynol yn gyntaf ac yna'n gwneud pob ymdrech i gysylltu â'r rhiant. Os yw'ch plentyn yn cael damwain nad oes angen gofal brys arnynt, byddwch yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig yn esbonio'r digwyddiad a'r driniaeth a roddwyd.

The school staff can only give medicine that has been prescribed by a family doctor. If a child suffers from a long-term illness (which can only be managed with regular medication), we are willing to give medication at school.

In order for us to administer the medicine you must complete the correct form which is available from the school office. All the medication is kept safely in accordance with instructions, out of the sight and reach of the children. In a serious emergency the school will call for professional help first and then make every effort to contact the parent. If your child has an accident that does not require emergency care, you will receive written notification explaining the incident and the treatment given.





Anghenion Dysgu Ychwanegol Additional Learning Needs

Yn Ysgol Pen y Garth, ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn derbyn addysg gynhwysol a phwrpasol. Ein nod yw creu awyrgylch o fewn yr ysgol lle mae pob plentyn yn teimlo yn ddiogel, iach, hapus a hyderus.

Rydym yn sicrhau bod cynllunio cwricwlwm gwahaniaethol yn ofalus yn galluogi fod pob un o'n disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gweddu orau i'w gallu. Mae monitro cynnydd y disgyblion yn rheolaidd yn galluogi athrawon i gynllunio gweithgareddau priodol. Bydd gweithgareddau wedi'u cynllunio yn cefnogi rhai disgyblion ac yn ymestyn eraill er mwyn i bawb gyflawni eu llawn botensial. Mae'r ysgol yn amgylchedd cynhwysol, sy'n cydnabod y gallai fod gan ddisgyblion rai Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar wahanol adegau yn ystod eu bywyd ysgol. Ein nod yw darparu'r ddarpariaeth orau ar gyfer pob angen unigol. Rydym yn cyflawni hyn trwy nodi angen yn gynnar, darparu Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a chynnig ymyraethau wedi eu targedu ychwanegol i rai o'n disgyblion. Os oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol bydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni trwy alwad ffôn neu lythyr, gan eu gwahodd i drafod gyda'r athro a'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Os oes angen cyngor pellach bydd y Cydlynnydd ADY yn ceisio cyngor gan asiantaethau allanol trwy broses atgyfeirio gyda chaniatâd y disgybl a'r rhieni.

Mae ein Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn cydweithio'n agos gyda'r staff a'r rhieni er mwyn sicrhau ymyrraeth cynnar a phriodol. Mae'r CADY yn darparu hyfforddiant i staff ac yn eu harwain nhw i ddarganfod mwy o wybodaeth am sut i ddiwallu'r anghenion. Mae ein CADY yn gweithio'n agos iawn gyda nifer o asiantaethau allanol ac athrawon arebingol o'r Sir er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn y ddarpariaeth a'r cymorth gorau posib.

At Ysgol Pen y Garth, our aim is to ensure that all pupils receive an inclusive and purposeful education. Our aim is to create an atmosphere within the school where every child feels safe, healthy, happy and confident.

We ensure that the careful planning of a differentiated curriculum enables each of our pupils to take part in activities that best suit their ability. Regular monitoring of pupils' progress enables teachers to plan appropriate activities. Planned activities will support some pupils and stretch others so that everyone achieves their full potential. The school is an inclusive environment, which recognises that pupils may have some Additional Learning Needs (ALN) at different times during their school life. Our aim is to provide the best provision for each individual need. We achieve this by identifying need early on, providing Individual Development Plans (IDPs) and offering additional targeted interventions to some of our pupils. If additional learning provision is required the school will contact the parents by phone call or letter, inviting them to discuss with the teacher and the Additional Learning Needs Coordinator. If further advice is needed the ALN Coordinator will seek advice from external agencies through a referral process with the consent of the pupil and the parents.

Our Additional Learning Needs Coordinator (ALNCo) works closely with the staff and parents to ensure early and appropriate intervention. The ALNCo provides training for staff and guides them to find out more information about how to meet the needs. Our ALNCo works very closely with a number of external agencies and regular teachers from the Vale to ensure that our pupils receive the best possible provision and support.





Cymdeithas Rhieni ac Athrawon / Parent and Teacher Association

Pwrpas y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yw codi arian i'r ysgol er mwyn prynu adnoddau ychwanegol er lles y disgyblion. Mae Cymdeithas Rhieni wedi bod yn weithgar iawn dros y blynyddoedd a rydym yn hynod o ddiolchgar am hyn.

Dros y blynyddoedd maen nhw, a'n teuluoedd cefnogol, wedi codi miloedd o bunnoedd wrth drefnu digwyddiadau noddedig, Ffair Nadolig a Ffair yr Haf ac amrywiaeth o weithgareddau eraill.

Mae'r arian a godwyd wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth brynu adnoddau ar gyfer y disgyblion.

Yn ogystal mae nifer fawr o'r rhieni wedi bod yn dod mewn i'n helpu, naill ai yn y dosbarth neu yn gyffredinol o gwmpas yr ysgol. Mawr yw ein diolch iddynt am hyn - rydyn ni wedi elwa'n sylweddol o'u llafur.

Mae angen eich cefnogaeth arnom! Dewch yn llu gyda'ch syniadau i'r cyfarfodydd PTA!

The purpose of the Parents and Teachers Association is to raise money for the school in order to buy additional resources for the benefit of the pupils. The PTA has been very active over the years and we are extremely grateful for this.

Over the years they, and our supportive families, have raised thousands of pounds by organising sponsored events, the Christmas Fayre and the Summer Fayre and a variety of other activities.

The money raised has been very useful in buying resources for the pupils.

In addition, a large number of parents have been coming in to help us, either in class or generally around the school. We are very grateful to them for this - we have benefited significantly from their labour.

We need your support! Bring your ideas to the PTA meetings!





Cinio Ysgol / School Dinner

Mae croeso i bob disgybl o'r dosbarth Derbyn hyd at flwyddyn 6 gael cinio ysgol yn ddyddiol. Mae cinio ysgol am ddim i bob plentyn. Mae'r cinio yn flasus iawn! Gellir cael pryd o fwyd poeth neu baget.

All pupils from Reception class to year 6 are able to have lunch on a daily basis. School dinners are free for all pupils. School dinners are very tasty! Pupils can choose a hot dinner or a baguette.



Clwb Brechwast a Chlwb Carco / Breakfast Club and Clwb Carco

Mae gennym Glwb Brechwast am ddim a gall bob plentyn fynychu hwn unwaith y maent yn bump oed; rhaid cofrestru ymlaen llaw. I wneud hyn cysylltwch â'r swyddfa. Prif fwriad y clwb yw i sicrhau fod pob plentyn yn cael brechwast iachus ar ddechrau'r dydd. Drysau ar agor 7:50 – 8:30.

We have a free Breakfast Club and all children can attend this once they are five years old; you must register in advance. To do this please contact the office. The main intention of the club is to ensure that all children have a healthy breakfast at the start of the day. Doors open 7:50 – 8:30.

Ar gyfer gofal wedi oriau ysgol, gall eich plentyn fynychu Clwb Carco sydd yn cwrdd yn neuadd yr Ysgol o 3.30yp – 5.30yp. Am fanylion pellach cysylltwch â'r ysgol.

For afterschool childcare, it is possible for your child to attend Clwb Carco which meets in the School hall from 3.30pm – 5.30pm. For further details contact the school.





Diogelu Plant / Safeguarding

Swyddog Diogelu Plant / Safeguarding Officer: Miss Becca Pugh

Dirprwy Swyddog Diogelu Plant / Deputy Safeguarding Officer: Miss Sioned Jones

Mae pob aelod o staff yr ysgol hon yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon am esgeulustra, camŵdrin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, i sôn am y mater wrth Gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr Ysgol. Gall Swyddogion Diogelu Plant yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i Swyddogion Diogelu Plant yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, yn unol â chanllawiau a phrotocol y sir. Yr Adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio.

Every member of staff at this school is responsible for safeguarding and protecting the children who attend. If there are concerns about neglect, physical, emotional or sexual abuse, then it is the duty of the staff, in accordance with the All Wales Child Protection Guidelines, to mention the matter to the School's Child Protection Co-ordinator. The school's Safeguarding Officers can consult with fellow professionals as well as relevant agencies such as the Health Services and Children and Young People's Services. Following these discussions, the School's Safeguarding Officers may have to officially refer the child to the Children and Young People's Services Department, in accordance with the county's guidelines and protocol. The Department of Children and Young People's Services decides whether action is necessary or not.





Cyfleoedd Cyfartal Equal Opportunities

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb o fewn y dosbarth a thu allan i'r dosbarth. Cred y Corff Llywodraethol, y Pennaeth, y staff a'r disgyblion yn gryf mewn hyrwyddo'r cysyniad o gyfle cyfartal i bob unigolyn. Gwrthwynebir pob math o ragfarn a gwahaniaethu yn seiliedig ar hil, rhyw, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oed. Os credwch, fel rhieni/gofalwyr bod eich plentyn yn dioddef o wahaniaethu ar sail un o'r uchod, cysylltwch gyda'r Pennaeth yn syth.

The school is committed to ensuring equality within the class and outside the class. The Governing Body, Headteacher, staff and pupils strongly believe in promoting the concept of equal opportunity for all individuals. All forms of prejudice and discrimination based on race, gender, belief, language, sexual orientation, disability or age are opposed. If you believe, as parents/carers, that your child is suffering from discrimination based on one of the above, contact the Headteacher immediately.





Addysg Gorfforol a Byw'n Iach Physical Education and Healthy Living



Rydym yn ffodus iawn bod gennym gyfelusterau gwych ar gyfer gwneud ymarfer corff. Mae gennym llwyth o dir a hefyd ganolfan hamdden ar ein safle. Mae'r disgyblion o'r Feithrin hyd at flwyddyn 6 yn defnyddio'r ganolfan hamdden.

Mae addysg gorfforol yn bwysicach heddiw nag y bu erioed. Mae gweithgaredd corfforol yn hanfodol i fywyd iach, ac i feddwl iach. Mae ymarfer corff rheolaidd ac egniol yn hybu twf a datblygiad plentyn.

Ein nod ni yn yr ysgol yw rhoi'r cyfle i bob plentyn brofi amrediad o weithgareddau addysg gorfforol, i ymestyn eu gwybodaeth, ac i ymestyn unrhyw ddawn sydd ganddynt o fewn y maes.

Rydym hefyd yn annog ein plant bob amser i fwyta'n iachus ac i yfed dŵr yn unig yn yr ysgol.

We are very fortunate to have great facilities for our physical education activities. We have plenty of land and also our own leisure centre on site. The pupils from the Nursery up to year 6 use the leisure centre.

Physical education is more important today than ever. Physical activity is essential to a healthy life, and for a healthy mind. Regular and vigorous exercise promotes a child's growth and development.

Our aim at the school is to give every child the opportunity to experience a range of physical education activities, to extend their knowledge, and to extend any talent they have within the field.





Llywodraethwyr / Governors

Rhian Griffiths – Cadeirydd / Chair
Geraint Scott – Is Gadeirydd / Vice Chair
Nicky Sturgess – Clerc / Clerk
Becca Pugh
Llinos Misra
Dewi Gaylard
Richard Grigg
Lynette James
Samantha Sampson
Rhys Angell Jones
Cath Bliss
Sally Craven
Richard Parsons





Dysgu ac Addysgu a'r Amgylchedd

Dysgu ac Addysgu

Mae dysgu ac addysgu yn ein hysgol yn gyfrifoldeb a rennir, ac mae gan bawb yn ein cymuned ysgol rôl bwysig i'w chwarae. Ein dyhead a'n nod yw ysbrydoli dysgwyr trwy lunio a chynllunio gwersi sydd yn gyffrous, dilys, deniadol ac yn berthnasol i fywydau ein disgyblion. Rydym yn anelu at hyrwyddo arferion gorau a chreu cysondeb mewn dysgu ar draws yr ysgol gyfan. Yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth, bwriedwn sicrhau bod pob plentyn yn cael profiadau dysgu o ansawdd uchel a fydd yn arwain at lefel uchel o lwyddiant ac agwedd tuag at waith. Fel ysgol, rydym wedi sefydlu rhestr o hanfodion sy'n sail i'n hymdrechion cynllunio wrth ystyried elfennau o ddysgu ac addysgu.

Yr Amgylchedd Dysgu

Gall yr amgylchedd dysgu gael effaith gadarnhaol ar safonau ac ysgogiad dysgwyr. Mae amryw o elfennau yn rhan o'r amgylchedd dysgu e.e cynnwys a defnyddio arddangosfeydd, chwarae cerddoriaeth, amrywio'r adnoddau gan gynnwys defnyddio TGCh, ystyriaeth o'r trefniad o grwpiau o ddisgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Ein nod yw sefydlu amgylchedd dysgu sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol drwy weithredu ar nifer o strategaethau allweddol. Rydym yn sicrhau bod offer dysgu ar gael yn hawdd er mwyn annog myfyrwyr i ymwneud â dysgu annibynnol. Yn ystod gwersi, defnyddiwn gerddoriaeth i greu awyrgylch ffafriol ar gyfer dysgu. Yn ystod eu hamser yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth, gweithiwn yn ddyfal i addysgu'r dysgwyr ar sut i barchu eu hamgylchedd dysgu a thir yr ysgol. Rydym yn gwneud yn siŵr bod ystafelloedd dosbarth yn ddeniadol, yn drefnus, ac yn rhydd o annibendod er mwyn hybu awyrgylch dysgu cadarnhaol. Yn ogystal, rydym yn paratoi ardaloedd chwarae rôl perthnasol i wella cyfleoedd dysgu ymhellach, lle a phan fo hyn yn berthnasol.

Dysgu ac Addysgu Effeithol: Cwestiynu

Mae cwestiynu effeithiol yn hanfodol i ddysgu ac addysgu da. Defnyddiwn gwestiynau i asesu manau cychwyn plant, i ddyfnhau dealltwriaeth, i wirio cynnydd plant ac i herio dysgwyr. Defnyddiwn amrywiaeth o gwestiynau o rai lefel lythrennol i gwestiynau lefel uwch. Rhown amser i blant feddwl cyn lleisio eu cyfraniadau ac rydym wedi mabwysiadu strategaeth **siarad, rhannu a meddwl** a phartneriaid trafod er mwyn hwyluso trafodaethau.

Dulliau Dysgu

Cydnabyddwn bod dysgwyr yn dysgu orau mewn ffyrdd gwahanol ac felly cynlluniwn wrth wahaniaethu ein tasgau er mwyn ennyn diddordeb pob dysgwr. Defnyddiwn ysgogiadau clywedol, cinesthetig a gweledol. Gall ddysgwyr gyfle eu dealltwriaeth o bynciau mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys siarad a gwrando, ysgrifennu, drama, cerddoriaeth, TGCH, celf, tasgau ymchwiliol, datrys problemau, gweithgareddau creadigol, chwarae rôl a dylunio a gwneud. Yn ystod gwersi, caiff disgyblion gyfle i ymgymryd â gwaith dosbarth cyfan, gwaith mewn grwpiau ac mewn parau yn ogystal â gwaith annibynnol. Rydym yn modelu, yn ysgogi ac yn canmol gwaith cydweithredol.

Arddangosfeydd Dosbarth

Defnyddiwn ein harddangosfeydd dosbarth i gefnogi, atgyfnerthu a dathlu gwaith ein dysgwyr. Bydd ein arddangosfeydd yn annog sgiliau adalw, yn annog sgiliau meddwl pellach, ac yn darparu gwybodaeth newydd a fydd yn galluogi ein dysgwyr i wneud cysylltiadau gyda dysgu blaenorol. Bydd trawsdoriad o sgiliau a gwaith yn cael eu harddangos.





Teaching and Learning and the Environment

Teaching and Learning

Teaching and learning in our school are a shared responsibility, and everyone in our school community has an important role to play. Our aspiration is to inspire a lifelong love of learning by creating lessons that are exciting, authentic, engaging, and relevant to the lives of our pupils. We aim to promote best practice and establish consistency in teaching across the whole school. At Ysgol Gymraeg Pen y Garth we aim to ensure that every child is provided with high quality learning experiences which will lead to a high level of pupil achievement and attitude. As a school, we have established a set of non-negotiables that serve as the fundamental principles which guides our planning efforts.

The Learning Environment

The physical environment has a positive impact on students' standards and motivation. Factors include the use of displays, music, the use of resources including ICT, the consideration of pupil groupings in the physical layout of the room. Our goal is to establish a learning environment that fosters effective learning by implementing several key strategies. We ensure that all learning equipment is easily accessible, encouraging students to engage in independent learning. During lessons we use music to create a conducive atmosphere for learning. During their time at Ysgol Gymraeg Pen y Garth we actively teach and expect children to show respect and care for their surroundings. We make sure classrooms are inviting, well-organised, and free from clutter to promote a positive learning atmosphere. Additionally, we create relevant role-play areas to further enhance learning opportunities where and when relevant.

Effective Teaching and Learning Styles: Questioning

The use of open and closed questioning is vital to teaching and learning. Questions are used to assess children's starting points, to deepen understanding and to check children's progress. A range of question types will be used from literal to higher order. Children will be given thinking time and a range of strategies are employed in this school to facilitate discussions for example: talk partners and think-pair-share.

Learning Styles

We recognise children learn in different ways and therefore plan and deliver a multi-sensory, differentiated approach to engage all learners using auditory, kinaesthetic, and visual stimuli. Pupils will demonstrate their understanding in a variety of ways, these include opportunities for pupils to communicate ideas through speaking and listening, writing, music, drama, ICT, art, investigation, and problem solving, research and finding out, asking, creative activities, debates, role-plays, oral presentations and designing and making things. Throughout the day, pupils engage in whole-class work, group work, paired work, and independent work. We make use of 'talk partners' and we model, encourage, and praise cooperative learning.

Classroom Displays

We use classroom displays to support, reinforce, and celebrate learning. Our displays will aid recall, stimulate further thinking, give new information, make connections, celebrate achievement, remind children of rules and targets, and motivate children towards further learning. A variety of skills will be displayed.





Cwricwlwm

Mae'n amser cyffrous yn addysg Cymru ac rydym wedi cynllunio Cwricwlwm sy'n seiliedig ar beth sy'n bwysig i'n 'Cynefin' ni ym Mhen Y Garth. Cyfnod llawn bwrlwm lle rydym wedi cydweithio a phenderfynu beth ddylai ein disgyblion ddysgu, sut y dylen nhw ddysgu a pham rydyn ni'n cynllunio'r hyn sy'n cael ei haddysgu yn ein dosbarthiadau.

Ein dyhead ym Mhen Y Garth yw i bawb wireddu'r pedwar diben.

- 1. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- 2. Cyfrannwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae rhan yn lawn mewn bywyd a gwaith.
- 3. Dinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n barod i chwarae eu rhan yng Nghymru a'r byd
- 4. Unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r 4 diben yn rhan annatod o'n proses gynllunio ac yn sail i'n gweledigaeth newydd. Trwy themâu trawsgwricwlaidd, profiadau dilys ac arddulliau addysgu amrywiol, mae disgyblion yn cael eu meithrin i ymgorffori'r 4 diben ar gyfer dysgu gydol oes. Mae addysgu a dysgu yn cwmpasu pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad trwy themâu ac ymholiadau. Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, a'r egwyddorion cynnydd yn sail i'r holl gynllunio.

Mae'r themâu trawsgwricwlaidd:

- Addysg cydberthnasoedd a rhywioldeb (RSE).
- Hawliau Dynol
- Amrywiaeth
- Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith
- Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

a'r fframweithiau trawsgwricwlaidd o

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Cymhwysedd Digidol

yn cael eu haddysgu drwy bob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad

leithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

Y Dyniaethau

Iechyd a Lles

Y Celfyddydau Mynegiannol

Gwyddoniaeth a Thechnoleg





Curriculum

It is an exciting time in Welsh education, and we have designed a Curriculum based on what is important to our 'Cynefin' at Pen Y Garth. We have collaborated and decided what our pupils should learn, how they should learn and why we plan what is taught in our classes.

Our aspiration at Pen Y Garth is for everyone to realize the four purposes.

1. **Ambitious, capable learners** who are ready to learn throughout their lives.
2. **Enterprising, creative contributors** who are ready to play a full part in life and work.
3. **Principled, informed citizens** who are ready to play their part in Wales and the world
4. **Healthy, confident individuals** who are ready to live a full life as a valuable member of society.

The 4 purposes are an integral part of our planning process and form the basis of our new vision. Through cross-curricular themes, authentic experiences and various teaching styles, pupils are nurtured to incorporate the 4 purposes for lifelong learning. Teaching and learning cover all six Areas of Learning and Experience through themes and enquiries. The statements of what matters, and the principles of progression form the basis of all planning.

The cross-curricular themes:

- Relationship and sexuality education (RSE).
- Human Rights
- Diversity
- Careers and work-related experiences
- Local, national, and international contexts

and the cross-curricular frameworks of

- Literacy
- Numeracy
- Digital Competence

are taught through each of the six Areas of Learning and Experience

Languages, Literacy and Communication
Mathematics and Numeracy
Humanities
Health and Well-being
Expressive Arts
Science and Technology





Cwricwlwm

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae gan addysg cydberthynas a rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol wrth eu cefnogi i gyflawni'r pedwar diben fel rhan o ddull gweithredu ysgol gyfan. Mae helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, yn greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

Mae'n ofynnol bod yr addysg a ddarperir yn briodol o ran datblygiad y dysgwyr. Felly yn unol ag amcanion Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol byddwn yn ystyried ystod o ffactorau megis oedran, gwybodaeth ac aeddfedrwydd y dysgwyr ynghyd ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau bod ein darpariaeth yn ddatblygiadol briodol ar gyfer pob dysgwr.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac yn orfodol i bob disgybl 3-16 oed. Mae'r elfen hon wedi'i datblygu i adlewyrchu dyheadau a phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Wrth gyflwyno Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mae'r ysgol wedi ystyried y canlynol:

- Rhaid i'r elfen hon fod yn blwraliaethol, gan adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf yn rhai Cristnogol ond gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- Rhaid hefyd adlewyrchu'r ffaith bod nifer o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol hefyd yn cael eu dal yng Nghymru
- Rhaid i'r gwersi gael eu darparu mewn ffordd wrthrychol a beirniadol. Pan fyddant yn rhoi gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, rhaid i'r athrawon ddefnyddio dull diduedd nad yw'n annog plant na'i gwneud yn ofynnol iddynt fod yn grefyddol neu'n anghrefyddol nac i dderbyn safbwynt penodol.
- Ni all rhieni a gofaluwr ofyn am gael tynnu eu plant o'r gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.





Curriculum

Relationships and Sexuality Education

Relationship and sexuality education has a positive and empowering role to play in the education of learners and is essential in supporting them to achieve the four purposes as part of a whole school approach. Helping learners to form and maintain a range of relationships, all based on mutual trust and respect, is at the core of relationship and sexuality education. These relationships are critical to developing emotional well-being, resilience and empathy.

It is a requirement that the RSE provided must be developmentally appropriate for learners. Therefore in accordance with the aims of the school's RSE Policy we will take account of a range of factors such as the learners' age, knowledge and maturity and any additional learning needs to ensure that our provision is developmentally appropriate for each learner.

Religion, Values and Ethics

Religion, Values and Ethics are part of the Humanities Area of Learning and Experience and are compulsory for all pupils aged 3-16. This element has been developed to reflect the aspirations and four purposes of the Curriculum for Wales. When introducing Religion, Values and Ethics the school has given due consideration to the following:

- This element must be pluralistic, reflecting the fact that religious traditions in Wales are mainly Christian but taking into account the teachings and practices of the other main religions represented in Wales
- It must also reflect the fact that a number of non-religious philosophical ideas are also held in Wales
- The lessons must be provided in an objective and critical way. When teaching Religion, Values and Ethics lessons, teachers must use an impartial approach that does not encourage children or require them to be religious or non-religious or to accept a particular point of view
- Parents and carers cannot ask to withdraw their children from the Religion, Values and Ethics lessons.





Presenoldeb a Phrydlondeb Attendance and Punctuality

Mae presenoldeb uchel a phrydlondeb dyddiol yn bwysig iawn i bob plentyn. Rydym yn cadw cofnod o bresenoldeb a phrydlondeb y disgyblion i gyd.

Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn cysylltu â'r ysgol pan fydd eich plentyn yn absennol. Dylid ffonio neu ebostio yr ysgol i nodi absenoldeb eich plentyn. Os na fyddwn yn derbyn gwybodaeth am absenoldeb eich plentyn, bydd y swyddfa yn cysylltu gyda chi.

Mae giat yr ysgol yn agor am 8.50am ac yn cau yn brydlon am 9am. Bydd disgyblion sydd yn cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau yn cael eu nodi'n hwyr.

High attendance and daily punctuality are very important for all children. We keep a record of the attendance and punctuality of all of our pupils.

You are kindly asked to ensure that you contact the school when your child is absent. You should phone or email to inform us of your child's absence. If we do not receive information about your child's absence, the office will contact you.

The school gate opens at 8.50am and closes promptly at 9am. Pupils who arrive after the register closes will be marked late.





Ein Rheolau a Gwerthoedd

Parch Cymreictod Hapusrwydd

Ein nod yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth yw sicrhau diwylliant sydd yn seiliedig ar hunan barch, parch at eraill, parch at yr amgylchedd, parch at y Gymraeg a pharch at eiddo. Rhown bwyslais ar werth pob unigolyn a'r nod yw creu awyrgylch gofalgar, diogel a hapus a fydd yn galluogi athrawon a phlant i gydweithio. Disgwylir i ddisgyblion gadw at reolau'r ysgol. Yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth rydym yn dilyn dull adferol o hyrwyddo ymddygiad da. Y nod bob tro yw datblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol rhwng pawb.

Dyma rai o'r agweddau rydym yn hoffi gweld cymuned Pen y Garth yn mabwysiadu:

- Parchu gwerthoedd Ysgol Gymraeg Pen y Garth
- Siarad Cymraeg ar bob achlysur o gwmpas yr ysgol
- Dangos parch at eraill
- Peidio â defnyddio iaith sydd yn anweddus neu'n sarhaus
- Bod yn ofalus am eu diogelwch personol ac am ddiogelwch eraill
- Bod yn gyfeillgar gydag eraill
- Dangos parch at eiddo eraill
- Ymateb yn gadarnhaol a pharchus at ddymuniadau'r athrawon
- Bod yn onest





Our Rules and Values

Respect

Cymreictod

Happiness

Our goal at Ysgol Gymraeg Pen y Garth is to ensure a culture based on self-respect, respect for others, respect for the environment, respect for the Welsh language and respect for property. We emphasise the value of each individual and the aim is to create a caring, safe and happy atmosphere that will enable teachers and children to work together. Pupils are expected to abide by the school's rules. At Ysgol Gymraeg Pen y Garth we follow a restorative approach to promoting good behaviour. The aim is always to develop and maintain positive relationships between everyone.

These are some of the aspects we like to see the Pen y Garth community adopt:

- Respect the values of Ysgol Gymraeg Pen y Garth
- Speak Welsh on all occasions around the school
- Show respect for others
- To not use language that is offensive
- To be careful about their personal safety and the safety of others
- Be friendly with others
- Show respect for other's property
- Respond positively and respectfully to the teachers' wishes





Gwisg Ysgol / School Uniform

Mae sicrhau safonau uchel o ran y wisg ysgol yn hynod o bwysig i ni yn Ysgol Gymraeg Pen y Garth. Mae dangos parch tuag at y rheolau a thuag at y wisg ysgol yn rhan hollbwysig o fywyd yr ysgol. Credwn fod cael gwisg ysgol yn sicrhau'r ymdeimlad o berthyn i Ysgol Gymraeg Pen y Garth a pherthyn i'n gilydd.

Gwisg ysgol Ysgol Gymraeg Pen y Garth:

- Crys t polo coch
- Siwmpwr neu gardigan goch
- Trowsus llwyd, siorts llwyd neu sgert lwyd. Ceir wisgo ffrog gingam goch a gwyn yn yr haf
- Esgidiau lledr plaen du – dim treinyrs.
- Dim gemwaith



Addysg Gorfforol:

crys "T" coch , siorts du ac esgidiau addas.

Gellir prynu gwisg ysgol o 'A Class Apart' (029 20515722) yn Dinas Powys
www.aclassapart.co.uk

Ensuring high standards in terms of the school uniform is extremely important to us at Ysgol Gymraeg Pen y Garth. Respecting school rules and school uniform is a crucial part of school life. We believe that having a school uniform ensures a sense of belonging to Ysgol Gymraeg Pen y Garth and belonging to one another.

Ysgol Gymraeg Pen y Garth's school uniform:

- Red polo t-shirt
- Red jumper or cardigan
- Grey trousers, grey shorts or a grey skirt. A red and white gingham dress can be worn in the summer
- Plain black leather shoes - no trainers.
- No jewellery

Physical Education:

- Red "T" shirt, black shorts and suitable shoes.

School uniforms can be purchased from 'A Class Apart' (029 20515722) in Dinas Powys www.aclassapart.co.uk



Manteision Addysg Cymraeg

Anogwn y plant i ddefnyddio'r iaith cyn gynted ag sy'n bosib tu mewn a thu allan i'r dosbarth. Ceisiwn sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol bod y Gymraeg yn iaith sy'n cwrdd â gofynion cyfoes a bod ein disgyblion yn ennill hyfedredd yn y ddwy iaith. Y Gymraeg yw'r prif gyfrwng dysgu ar draws yr ysgol, ond cyflwynir Saesneg fel pwnc yn unig yn yr Adran Iau gyda'r nod o feithrin plant sy'n hyderus yn y ddwy iaith.

Gofynnwn i rieni annog eu plant i fanteisio ar bob cyfle i gael profiadau trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg e.e. wrth ymuno â chlybiau. Bydd gohebiaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn cael ei wneud trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Pam dewis Addysg Gymraeg?

- Mae yna fanteision amlwg mewn bod yn rhugl mewn o leiaf dwy iaith.
- Dengys ymchwil fod addysg ddwyieithog yn datblygu hyblygrwydd meddyliol gan gynorthwyo'r gallu i ddysgu iaith arall.
- Mae canran uchel o boblogaeth y byd yn byw eu bywydau gan ddefnyddio o leiaf dwy iaith.
- Mae dros hanner miliwn o bobl yng Nghymru yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.
- Gwêl nifer gynyddol o gyflogwyr y gallu i siarad Cymraeg yn ddelfrydol, ac mewn rhai swyddi yn hanfodol.
- Nid yw'r nifer helaeth o rieni sy'n dewis addysg Gymraeg i'w plant yn siarad Cymraeg, ond nid yw hyn yn effeithio ar allu'r plant i ddysgu Cymraeg.
- Effaith bositif caiff addysg Gymraeg ar allu plentyn i ddysgu Saesneg.

Disgwylir i bob disgybl i siarad Cymraeg yn barhaus yn ystod ei ddiwrnod ysgol. Golyga hyn, taw'r Gymraeg a ddefnyddir i gyfathrebu'n gymdeithasol yn ystod amseroedd chwarae ac yn ystod yr awr ginio.





The Advantages of Welsh Education

We encourage the children to use the language as soon as possible inside and outside the classroom. We try to ensure that pupils are aware that Welsh is a language that meets contemporary requirements and that our pupils gain proficiency in both languages. Welsh is the main medium of learning across the school, but English is presented as a subject in the Junior Department with the aim of nurturing children who are confident in both languages.

We ask parents to encourage their children to take advantage of every opportunity to gain experiences through the medium of the Welsh language e.g. when joining clubs. Correspondence between the school and the parents will be done through the medium of Welsh and English.

Why choose Welsh Education?

- There are clear advantages to being fluent in at least two languages.
- Research shows that bilingual education develops mental flexibility helping the ability to learn another language.
- A high percentage of the world's population live their lives using at least two languages.
- Over half a million people in Wales use the Welsh language on a daily basis.
- An increasing number of employers see the ability to speak Welsh as ideal, and in some positions essential.
- The large number of parents who choose Welsh education for their children do not speak Welsh, but this does not affect the children's ability to learn Welsh.
- Welsh education has a positive effect on a child's ability to learn English.

All pupils are expected to speak Welsh continuously during their school day. This means that Welsh is used to communicate socially during play times and during the lunch hour.

